**Eitem ar yr agenda: 3**

# AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

Cofnodion cyfarfod Panel Gweithredol Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru a gynhaliwyd ddydd Llun 25ain Gorffennaf 2005 ym Mhencadlys y Gwasanaeth Tân ac Achub yn Llanelwy. Dechreuodd y cyfarfod am 12.15 y prynhawn.

**Yn bresennol:**

| **Y Cynghorydd** | **Yn cynrychioli** |
|---|---|
| T Roberts (Cadeirydd) | Cyngor Gwynedd |
| M Williams (Is-Gadeirydd) | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| D Jones MBE | Cyngor Sir Ddinbych |
| J A Smith | Cyngor Sir Ddinbych |
| D Barratt | Cyngor Sir y Fflint |
| E F Evans | Cyngor Sir y Fflint |
| E Morgan Jones | Cyngor Gwynedd |
| W T Owen | Cyngor Gwynedd |
| E C George | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| W J Chorlton | Cyngor Sir Ynys Môn |

**Hefyd yn bresennol:**

S A Smith (Prif Swyddog Tân a Phrif Weithredwr); J Kennedy (Dirprwy Swyddog Monitro i'r Awdurdod); S Forrest (Adran y Trysorydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy); C Enness (Dirprwy Brif Swyddog Tân ); C Hanks (Prif Swyddog Tân Cynorthwyol, Cynnal y Gwasanaethau); P S Claydon (Prif Swyddog Tân Cynorthwyol, Cyflwyno'r Gwasanaethau); P L Slee (Prif Swyddog Cynorthwyol, Gwasanaethau Corfforaethol); S Morris (Rheolwr Cynllunio Corfforaethol); N Williams (Rheolwr Ystadau); D Hughes (Rheolwr dros dro Technoleg Gwybodaeth) a Rh Evans (Swyddog Cyswllt Aelodau).

## RHAN I

### 1) Ymddiheuriadau

| **Y Cynghorydd** | **Yn cynrychioli** |
|---|---|
| S C Jones | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| J M Vaughan | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| P C Evans YH (dirprwy) | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| G M Craddock | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| | |
| I R Miller | Clerc a Swyddog Monitro i'r Awdurdod |
| K W Finch | Trysorydd i'r Awdurdod |

Croesawodd y Cadeirydd aelodau'r Panel i'w cyfarfod cyntaf ym Mhencadlys newydd y Gwasanaeth.

Rhoddodd y Cadeirydd wybod i'r aelodau fod y Cynghorydd S C Jones, a oedd wedi cael ei throsglwyddo'n ddiweddar o ysbyty yn Ffrainc i Ysbyty Glan Clwyd, wedi gadael yr Uned Dibyniaeth Uchel a bellach yn derbyn triniaeth ar un o wardiau'r ysbyty. Ei fwriad oedd ymweld â hi wedi'r cyfarfod a mynd ag anrheg gan yr Awdurdod iddi. Wedi ei ymweliad, addawodd ysgrifennu at yr holl aelodau i roi gwybod iddynt am y trefniadau ar gyfer ymweld â'r Cynghorydd Jones.

**2) Rhybudd o Faterion Brys**

Dywedodd y Cadeirydd fod un eitem wedi ei chyflwyno ar gyfer ei hystyried:

i. Llythyr y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio at y Cadeirydd, dyddiedig 18fed Gorffennaf 2005, yn dwyn y teitl *Deferring Elements of IRMP Activity.* Roedd y llythyr wedi ei drafod yng nghyfarfod Gweithgor y Cynllun Integredig Rheoli Risg yn gynharach ac wedi cael ei gyfeirio i'r cyfarfod presennol at ddiben penderfyniad ffurfiol.

**3) Cofnodion**

Cyflwynwyd y cofnodion canlynol:

i. Cyfarfod y Panel Gweithredol a gynhaliwyd ar 25ain Ebrill 2005

***<u>Penderfynwyd</u>: - cymeradwyo'r cofnodion yn gofnod gwir a chywir o'r trafodion***

**4) Materion yn Codi**

**Roedd y materion canlynol yn codi o'r cofnodion:**

**Tud. 4 – Y Diweddaraf am y Prosiectau Cyfalaf:** Cafodd yr aelodau wybod gan y Prif Swyddog Tân y byddai'r ymweliad arfaethedig ag adeilad y Pencadlys newydd ar gyfer holl aelodau'r Awdurdod Tân ac Achub yn digwydd yn union wedi'r cyfarfod. Roedd yr aelodau hynny nad oeddynt yn aelodau o'r Panel Gweithredol wedi eu gwahodd i ymuno ag aelodau'r Panel yn y Pencadlys er mwyn iddynt gael cyfle i weld yr adeilad newydd, a'r adeilad drws nesaf a fyddai'n gartref i'r ganolfan reoli arfaethedig ar gyfer y tri gwasanaeth brys.

**5) Y Berthynas rhwng Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a'r Gwasanaethau Tân ac Achub yng Nghymru**

Cyflwynodd y Prif Swyddog Tân ei adroddiad (a ddosbarthwyd o flaen llaw), sef adroddiad roedd yr Awdurdod yn ei gyfarfod ar 20fed Mehefin 2005 wedi gohirio trafodaeth arno i'r cyfarfod hwn o'r Panel Gweithredol. Roedd yr adroddiad yn

ceisio barn yr aelodau ar y berthynas rhwng yr Awdurdod Tân ac Achub a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn y dyfodol. Roedd papur trafod a luniwyd gan Mr Steve Thomas, sef Cyfarwyddwr y Gymdeithas, ynghlwm wrth yr adroddiad ar gyfer ystyriaeth yr aelodau. Byddai'r tri awdurdod tân ac achub yng Nghymru yn ystyried yr adroddiad maes o law.

Roedd aelodau'r Panel yn croesawu cynigion y Gymdeithas ar gyfer datblygu perthynas yn y dyfodol rhwng y Gymdeithas a'r tri awdurdod tân ac achub yng Nghymru. Roedd y Panel o'r farn fod yr awdurdodau bellach, yn dilyn datganoli'r cyfrifoldeb am dân ac achub i'r Cynulliad Cenedlaethol, yn cydweddu'n dda gyda'r teulu llywodraeth leol yng Nghymru. Gan fod yr awdurdodau tân ac achub yn ddibynnol ar yr awdurdodau lleol yn eu hardaloedd am gyllid, roeddent felly yn rhan annatod o'r fframwaith llywodraeth leol yng Nghymru. Oherwydd pwysau cyllidebol yn y dyfodol roedd yn hollbwysig i'r awdurdodau tân ac achub atgyfnerthu ac adeiladu ar eu perthynas â'r awdurdodau unedol yng Nghymru, a'r Gymdeithas oedd i'w gweld fel y ffordd fwyaf priodol i hwyluso'r broses honno.

Roedd yr aelodau'n cytuno â'r cynnig yn yr adroddiad y dylai'r Gymdeithas fod â chyswllt mwy ffurfiol â Fforwm y Gwasanaethau Tân ac Achub Cymru, ond roedd y Panel o'r farn y dylai fforwm neu banel arall, neu fecanwaith o ryw fath, gael ei sefydlu er mwyn edrych ar y materion polisi a meysydd o ddiddordeb/pryder oedd yn gyffredin i'r tri awdurdod. Dylai aelodaeth y Fforwm neu'r Panel hwn gynnwys nifer gyfartal o gynrychiolwyr o'r tri awdurdod tân ac achub yng Nghymru. Gallai'r Fforwm/Panel hefyd fod yn gyswllt rhwng yr awdurdodau a Fforwm Gwasanaethau Tân Cymru ac unrhyw gorff teiran (Fforwm Gwasanaethau Tân ac Achub Cymru/Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru/Gweinidogol). Petai Fforwm neu Banel o'r fath yn cael ei sefydlu, gallai brofi i fod yn offeryn cyfathrebu dwyffordd gwerthfawr rhwng Fforwm Gwasanaethau Tân ac Achub Cymru/y corff teiran a'r awdurdodau unigol er mwyn trosglwyddo safbwyntiau, lleisio pryderon a hysbysu ynghylch penderfyniadau.

Roedd y Panel hefyd yn croesawu cynnig y Gymdeithas i drafod gyda'r awdurdodau y lefel o gefnogaeth a roddir ar hyn o bryd gan y Gymdeithas i'r awdurdodau tân ac achub, ac roedd o'r farn y dylai'r gefnogaeth yn y dyfodol fod ar ffurf swyddog polisi pwrpasol ar gyfer tân ac achub, yn hytrach nag ar sail secondiad o un o'r awdurdodau tân ac achub. Felly:

***<u>Penderfynwyd</u>: -***

1. ***nodi'r adroddiad a luniwyd gan Gyfarwyddwr Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, ac anfon llythyr at y Gymdeithas yn nodi parodrwydd yr Awdurdod i ddechrau trafodaethau ar y materion a godwyd yn yr adroddiad, gyda golwg i ddatblygu perthynas yn y dyfodol;***
2. ***y dylai'r Gymdeithas ystyried penodi swyddog polisi pwrpasol tân ac achub i gefnogi awdurdodau tân ac achub; a***

*iii.* ***gofyn i'r Gymdeithas gynorthwyo gyda sefydlu Fforwm/Panel Awdurdodau Tân ac Achub Cymru, y byddai ei aelodaeth yn cynnwys nifer gyfartal o gynrychiolwyr o'r tri awdurdod tân ac achub yng Nghymru, ac a fyddai ei gylch gwaith yn cynnwys ymchwilio i faterion polisi a meysydd o ddiddordeb/pryder oedd yn gyffredin i'r tri awdurdod. Byddai'r Fforwm/Panel hwn hefyd yn gweithredu fel offeryn cyfathrebu rhwng yr awdurdodau unigol a Fforwm Gwasanaethau Tân ac Achub Cymru, y corff teiran ac fel arall.***

## 6) Gwybodaeth am Berfformiad

Cyflwynodd Shân Morris, Rheolwr Cynllunio Corfforaethol y Gwasanaeth, yr adroddiad (a ddosbarthwyd o flaen llaw) i roi gwybodaeth i'r aelodau am y dangosyddion perfformiad a ddefnyddid gan Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru. Dan ei gylch gwaith diwygiedig, y Panel Gweithredol oedd bellach â'r pwerau wedi eu dirprwyo iddo i gyflawni gwaith monitro perfformiad ar ran yr Awdurdod. Esboniodd y Rheolwr Cynllunio Corfforaethol fod llythyr a dderbyniwyd ym mis Mai 2005 oddi wrth y Cynulliad yn cynnig bod ôl-adroddiad monitro yn cael ei gyflwyno i'r pwyllgor priodol o'r Awdurdod yn chwarterol. Yna, aeth yn ei blaen i roi gwybodaeth hanesyddol a chefndirol am fonitro perfformiad gan gynnwys diffiniadau o'r derminoleg a ddefnyddid, cyn rhoi gorolwg gynhwysfawr o'r ystod o ddangosyddion statudol ac anstatudol roedd yr Awdurdod yn gorfod mesur ei hun yn eu herbyn. Cafodd yr aelodau wybod bod yr Awdurdod yn perfformio'n dda wrth ostwng nifer y prif danau, ond roedd yn gweld codiadau a gostyngiadau yn nifer y tanau eilaidd. Roedd yn amlwg o'r data oedd ar gael bod Diogelwch Tân Cymunedol a'r strategaethau lleihau tanau bwriadol yn talu ar eu canfed. Roedd yr Awdurdod yn gwneud cynnydd cyson o ran cadw pobl yn ddiogel, ac yn gwneud hynny ar lai o gost y pen i'r boblogaeth leol na'r ddau awdurdod arall yng Nghymru. Cyn ateb cwestiynau'r aelodau am y gwahanol ddangosyddion, dywedodd y Rheolwr Cynllunio Corfforaethol bod gwall ar Atodiad 1 o ran y dangosydd perfformiad olaf, sef BVPI 150. Dylai'r ffigwr am y tro ar gyfer 2004-05 yn y Dangosydd Perfformiad ar "Gwariant y pen o'r boblogaeth" ddangos (£24,968,000) £37.22 ac nid (£27,951,864) £41.67. Ymddiheurodd am y camgymeriad hwn.

***<u>Penderfynwyd</u>: - nodi cynnwys yr adroddiad***

Gadawodd y Cynghorydd E F Evans y cyfarfod yn y fan hon.

## 7) Y Cynnydd mewn perthynas â Gwerth Gorau

Cyflwynodd y Dirprwy Brif Swyddog Tân yr adroddiad (a ddosbarthwyd o flaen llaw) i roi gwybod i'r aelodau am y cynnydd mewn perthynas â Gwerth Gorau. Gan fod y Panel Gweithredol yn ddiweddar wedi derbyn swyddogaethau'r Awdurdod mewn perthynas â Gwerth Gorau, dan adrannau 3 i 6 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1999, rhoddodd y Dirprwy Brif Swyddog Tân wybodaeth i'r aelodau am hanes a chefndir Gwerth Gorau. Yna, aeth yn ei flaen i roi'r diweddaraf i'r Panel am y sefyllfa bresennol o ran Rhaglen Cymru ar gyfer

Gwella, sef y fframwaith perfformiad ac asesu a fyddai'n berthnasol i'r awdurdodau tân ac achub yng Nghymru, a rhoddodd wybod i'r aelodau bod Llywodraeth y Cynulliad yn dal i ddisgwyl y byddai'r Rhaglen ar gyfer yr awdurdodau tân ac achub yn dechrau ar 1af Ebrill 2006; er bod ymgynghoriadau ar nifer o'r elfennau craidd, yn cynnwys cyfarwyddyd y Rhaglen a'r dangosyddion perfformiad drafft yn dal heb eu cyhoeddi. I ateb cwestiwn gan y Cynghorydd E C George, dywedodd y Prif Swyddog Tân nad oedd Swyddfa Archwilio Cymru wedi rhoi unrhyw arwydd ei bod yn bwriadu argymell defnyddio'r system "goleuadau traffig" fel y dull i fesur cyraeddiadau'r awdurdodau yn erbyn gwahanol ddangosyddion. Dywedodd y byddai'n gyndyn o ddefnyddio'r dull hwn oni bai ei fod yn ofyniad statudol. Felly:

***<u>Penderfynwyd</u>: - nodi'r adroddiad***

**8) Cynllun Iaith Gymraeg Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru 2005 - 2010**

Cyflwynodd y Prif Swyddog Tân Cynorthwyol (Cynnal y Gwasanaethau) yr adroddiad a'r cynllun drafft (a ddosbarthwyd o flaen llaw) gyda golwg i geisio cymeradwyaeth yr aelodau i Gynllun Iaith Gymraeg diwygiedig drafft yr Awdurdod ar gyfer y cyfnod 2005 i 2010. Esboniodd y byddai'r Cynllun drafft yn cael ei gyflwyno i Fwrdd yr Iaith am eu sylwadau a'u cymeradwyaeth unwaith y byddai'r Panel yn ei gymeradwyo. Felly:

***<u>Penderfynwyd</u>: - cymeradwyo Cynllun Iaith Gymraeg Diwygiedig Drafft yr Awdurdod ar gyfer y cyfnod 2005 i 2010 ar gyfer ei gyflwyno i Fwrdd yr Iaith Gymraeg, a fod copi o'r Cynllun Drafft yn cael ei anfon at holl aelodau'r Awdurdod Tân ac Achub er gwybodaeth.***

**9) Arbedion Effeithlonrwydd**

Cyflwynodd y Prif Swyddog Cynorthwyol (Gwasanaethau Corfforaethol) yr adroddiad (a ddosbarthwyd o flaen llaw) yn gofyn i'r aelodau ystyried yr 1% o arbedion effeithlonrwydd fydd eu hangen yng nghyllideb yr Awdurdod yn 2005/06. Atgoffodd yr aelodau fod y Panel yn ei gyfarfod diwethaf wedi nodi'r pennawd cyllidebol 'darpariaeth cyflogau'r diffoddwyr tân rhan amser' fel y maes a fyddai'n fwyaf tebygol o wireddu y rhan fwyaf o'r arbedion effeithlonrwydd o £294,123 fydd eu hangen. Cafodd y Panel wybod gan y Prif Swyddog Cynorthwyol (Gwasanaethau Corfforaethol) bod yr atodiad i'r adroddiad yn rhoi dadansoddiad o'r gwahanol feysydd gwariant o fewn cyllideb y diffoddwyr tân rhan amser ar gyfer 2005/06, yn cynnwys yr arbedion a ddisgwylid. Felly:

***<u>Penderfynwyd</u>: -***

*i.* ***nodi'r arbedion effeithlonrwydd angenrheidiol o £294,123 o'r gyllideb ar gyfer cyflogau'r diffoddwyr tân rhan amser fel a fanylwyd arnynt yn atodiad A i'r adroddiad; a***

*ii* ***bod y Prif Swyddog Tân yn adrodd i'r cyfarfod nesaf o'r Panel Gweithredol am y cynnydd wrth gyrraedd y targed effeithlonrwydd yng nghyllideb y diffoddwyr tân rhan amser ac unrhyw arbedion cyllidebol eraill y gellir eu hadnabod***

**10) Adolygiad o'r Côd Ymddygiad Enghreifftiol**

Cyflwynodd y Dirprwy Swyddog Monitro adroddiad y Clerc (a ddosbarthwyd o flaen llaw) yn gofyn i'r Panel ystyried a oedd yn dymuno ymateb ar ran yr Awdurdod i bapur ymgynghorol a deddfwriaeth ddrafft Llywodraeth y Cynulliad ar yr Adolygiad o'r Côd Ymddygiad Enghreifftiol. Roedd Pwyllgor Safonau'r Awdurdod wedi ystyried yr Adolygiad yn ei gyfarfod ar 1af Gorffennaf 2005, ac roedd copi o'i ymateb yn atodiad i'r adroddiad er gwybodaeth i'r aelodau. Wedi trafodaeth:

***Penderfynwyd: - nodi ymateb y Pwyllgor Safonau i'r ymgynghoriad ar yr Adolygiad o'r Côd Ymddygiad Enghreifftiol ac nad oedd yn dymuno gwneud rhagor o sylwadau na chyflwyno ymateb arall i'r ymgynghoriad ar ran yr Awdurdod***

**11) Trefn Lywodraethu Well i Gymru**

Cyflwynodd y Dirprwy Swyddog Monitro adroddiad y Clerc (a ddosbarthwyd o flaen llaw) oedd yn gofyn i'r Panel ystyried Papur Gwyn Llywodraeth Prydain ar y diwygiadau arfaethedig i'r setliad datganoli. Esboniodd fod rhai o'r newidiadau gynigiwyd yn y Papur Gwyn, ac oedd yn ymwneud â'r dull y llunnir Mesurau'r Llywodraeth ar hyn o bryd mewn meysydd cyfrifoldeb datganoledig, eisoes wedi cael eu rhoi ar waith er nad oedd y cyfnod ymgynghori wedi dod i ben eto. Nid oedd rhoi'r newidiadau hyn ar waith yn gofyn am wneud newidiadau i Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998. Cafodd y Panel wybod gan y Dirprwy Swyddog Monitro na fyddai yr un o'r cynigion hyn yn cael effaith uniongyrchol ar yr Awdurdod a bod yr adroddiad yn rhestru'r prif gynigion ac yn rhoi manylion am y newidiadau arfaethedig eraill a fyddai o ddiddordeb i'r Awdurdod. Felly:

***Penderfynwyd: - nodi'r adroddiad***

**12) Ymestyn Tâl Salwch**

Cyflwynodd y Prif Swyddog Tân ei adroddiad (a ddosbarthwyd o flaen llaw) i roi gwybod i'r aelodau am y penderfyniadau a gymerwyd ganddo yn dilyn ymgynghoriad â'r Cadeirydd ynghylch ymestyn tâl salwch. Felly:

***Penderfynwyd: - nodi'r adroddiad***

**13) Materion Brys**

**Llythyr y Gweinidog – "Deferring Elements of IRMP Activity":** Roedd copi o lythyr y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithas ac Adfywio at y Cadeirydd,

dyddiedig 18 Gorffennaf 2005, wedi cael ei ddosbarthu i'r holl aelodau yng nghyfarfod Gweithgor y Cynllun Risg a gynhaliwyd yn union o flaen y cyfarfod presennol. Yn ei llythyr, roedd y Gweinidog yn gofyn i "*fire and rescue authorities consider the deferral of any consideration of future proposals which would result in a permanent re-allocation of resources. The deferral would be until such time as the National Assembly has indicated its intentions regarding any revisions to the guidance*." Yng nghyfarfod y Gweithgor, roedd y Prif Swyddog Tân wedi esbonio ei fod yn gynharach y bore hwnnw wedi siarad â swyddogion y Cynulliad a oedd wedi ei sicrhau nad y bwriad oedd cyfyngu ar benderfyniadau awdurdodau ar eu Cynlluniau Risg. Diben y llythyr oedd ceisio sicrwydd na fyddai'r Awdurdod yn ystyried nac yn gweithredu newidiadau sylfaenol, fel y rhai a gynigwyd gan Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru, hyd oni fyddai'r Cynulliad wedi cyhoeddi ei gyfarwyddyd ei hun ar Gynlluniau Risg. Nid oedd unrhyw arwydd yn y llythyr o pryd y disgwylid cyhoeddi'r cyfarwyddyd at ddiben ymgynghori. Roedd yr aelodau o'r farn y dylai'r Awdurdod geisio cael eglurhad ar y derminoleg ddefnyddiwyd yn y llythyr ac yn arbennig am ddiffiniad o'r ymadrodd "*permanent re-allocation of resources*" cyn iddo gytuno i ystyried cais y Gweinidog am ohiriad, gan fod y llythyr i'w weld yn ymgais i lesteirio eu rhyddid ar faterion y Cynllun Risg. Roedd yr aelodau'n ymwybodol o'u dyletswyddau statudol a'u cyfrifoldebau dan y ddeddfwriaeth Gwerth Gorau ac felly'n teimlo y byddent, petaent yn cytuno i gais y Gweinidog, yn gallu eu cael eu hunain yn gwrthdaro â'r ddeddfwriaeth. Felly:

***<u>Penderfynwyd:</u> - cyfarwyddo'r Clerc i'r Awdurdod i ysgrifennu at y Gweinidog ar ran yr Awdurdod i geisio eglurhad o'r derminoleg ddefnyddiwyd yn ei llythyr dyddiedig 18fed Gorffennaf 2005, ac yn arbennig am eglurhad llwyr o'r ymadrodd "permanent re-allocation of resources", cyn i'r Awdurdod ystyried ei chais am ohiriad***

**14) Dyddiad(au) cyfarfod(ydd) y dyfodol**

Gofynnodd rhai aelodau i'r Panel ymatal rhag cynnal pob cyfarfod ar ddydd Llun. Felly, wedi trafodaeth:

***<u>Penderfynwyd</u>: - cynnal cyfarfodydd nesaf y Gweithgor y Cynllun Integredig Rheoli Risg a'r Panel Gweithredol ddydd Mercher 26ain Hydref 2005. Y Gweithgor i gyfarfod am 10.00 y bore a'r Panel Gweithredol i ddilyn tua 11.30 y bore; y ddau gyfarfod i'w cynnal ym Mhencadlys y Gwasanaeth Tân ac Achub yn Llanelwy.***

Rhoddodd y Cadeirydd wybod i'r aelodau mai'r argymhelliad oedd i weddill yr eitemau busnes ar yr agenda gael eu trafod heb y cyhoedd na'r Wasg yn bresennol. Felly:

***<u>Penderfynwyd</u>: - yn unol ag Adran 100A(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol, 1972 bod y Wasg a'r Cyhoedd yn cael eu heithrio o'r cyfarfod tra'n ystyried yr eitemau busnes canlynol gan ei bod yn debygol y byddai gwybodaeth eithriedig yn cael ei datgelu iddynt fel y diffinnir ym Mharagraffau 1, 8, 9 a 10 o Ran 1 o Atodlen 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol, 1972***

**RHAN II**

**15) Y Diweddaraf am y Prosiectau Cyfalaf**

Cyflwynodd y Prif Swyddog Tân Cynorthwyol (Cynnal y Gwasanaethau) yr adroddiad (a ddosbarthwyd o flaen llaw) i roi'r diweddaraf i'r aelodau am raglen gyfalaf yr Adran Eiddo. Cafodd yr aelodau wybod bod y Cynghorydd J A Smith wedi derbyn gwahoddiad i eistedd ar y gweithgor a gafodd y dasg o ddatblygu'r prosiect, a mynd ag o yn ei flaen, i addasu Gorsaf Dân y Rhyl yn 'orsaf dân gymunedol'.

I ateb cwestiwn am y gwariant ychwanegol a gafwyd ar safle'r Pencadlys newydd yn Llanelwy, dywedodd y Rheolwr Ystadau fod y datblygwr, er mai ei fai ef oedd y camgymeriad ar y ddogfen 'Penawdau'r Telerau' a oedd wedi arwain at y swm anghywir yn cael ei ddangos ar gyfer y costau gosod, o fewn ei hawliau, yn ôl y farn gyfreithiol, yn cywiro'r camgymeriad ac yn gofyn am y swm dyledus. Cafodd yr aelodau wybod gan y Dirprwy Swyddog Monitro fod cyfraith achosion diweddar wedi dangos y gallai'r Awdurdod wynebu achos cyfreithiol pe na bai'n talu ac yn fwy na thebyg byddai'r Awdurdod yn colli ac yn gorfod talu costau'r datblygwr. I ateb cwestiwn arall ynghylch sefyllfa'r Awdurdod, oherwydd y costau ychwanegol, o ran y tendrau eraill a gyflwynwyd i brosiect y Pencadlys newydd; atgoffwyd yr aelodau na fu proses dendro ynglŷn â'r prosiect hwn gan mai dod i gytundeb prydles ddeng mlynedd gyda'r datblygwr roedd yr Awdurdod wedi ei wneud.

I ateb cwestiynau eraill, cafodd yr aelodau wybod mai ar gyfer darparu cyfleusterau ar gyfer diffoddwragedd tân y trefnwyd y gwaith ailfodelu ar gyfer gorsaf dân y Fflint. O ran lle parhaol i Swyddfa Diogelwch y Sir yn Wrecsam, cafodd y Panel wybod bod trafodaethau'n mynd rhagddynt a bod cyfarfod wedi ei drefnu ar gyfer mis Gorffennaf, ond cafodd hwnnw ei ganslo; ac roedd trefniadau'n cael eu gwneud nawr i'w gynnal ddiwedd Awst.

***Penderfynwyd: - nodi cynnwys yr adroddiad***

**16) Ffordd Fynediad i Orsaf Dân Llanelwy**

Cyflwynodd y Prif Swyddog Tân Cynorthwyol (Cynnal y Gwasanaethau) yr adroddiad (a ddosbarthwyd o flaen llaw) i roi gwybod i'r aelodau am y bwriad i gydweithredu gyda Chyngor Sir Ddinbych i gael mabwysiadu'r ffordd fynediad breifat at Orsaf Dân Llanelwy a'r llyfrgell drws nesaf yn brifffordd gyhoeddus. Cyn trafod yr eitem, datganwyd buddiant gan gynrychiolwyr Cyngor Sir Ddinbych, sef y Cynghorwyr D Jones a J A Smith, a gadawsant y cyfarfod. Dywedodd y Prif Swyddog Tân Cynorthwyol (Cynnal y Gwasanaethau) wrth yr aelodau fod yr holl wybodaeth, yn cynnwys y goblygiadau ariannol, wedi ei gynnwys yn yr adroddiad. I ateb cwestiynau'r aelodau, dywedodd y Swyddogion y byddai o fudd i'r Awdurdod gael gwared ar y safle gan na fyddai raid iddo wedyn dalu am yswiriant atebolrwydd cyhoeddus ar gyfer y ffordd, gan y byddai'r

atebolrwydd yn cael ei drosglwyddo i Gyngor Sir Ddinbych. Petai'r Awdurdod yn cytuno i rannu'r costau o farcio'r ffordd yn gyfatal gyda'r Cyngor, byddai'n cymryd yr holl gamau angenrheidiol i ddiogelu rhwydd hynt i gerbydau fynd a dod o'r orsaf dân. Felly:

***<u>Penderfynwyd</u>: - nodi***

*i.* ***y byddai Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru, mewn partneriaeth â Chyngor Sir Ddinbych, yn buddsoddi cyfraniad perchnogion Gwesty'r Plough tuag at y gwaith atgyweirio a mabwysiadu'r ffordd a'r marcio angenrheidiol, a'r gwaith i gael ei gyflawni a'i reoli gan Gyngor Sir Ddinbych ar ran pawb; ac***

*ii.* ***y byddai Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru, mewn partneriaeth â Chyngor Sir Ddinbych, yn rhannu'r gost a amcangyfrifwyd am y gwaith o farcio'r ffordd***

Yn y fan hon daeth y Cynghorwyr D Jones a J A Smith yn ôl i'r cyfarfod.

**17) Materion Teleffoni**

Cyflwynodd y Prif Swyddog Tân Cynorthwyol (Cynnal y Gwasanaethau) yr adroddiad cyfrinachol (a ddosbarthwyd o flaen llaw) i roi gwybod i'r aelodau am y materion oedd yn ymwneud â gosod Teleffoni Protocol y Rhyngrwyd (IP). Aeth yn ei flaen i fanylu ar y wybodaeth oedd yn yr adroddiad ac atebodd yntau a'r Prif Swyddog Tân gwestiynau'r aelodau. Roedd y Cynghorydd D Jones o'r farn y dylai materion o'r natur yma bob amser gael eu codi gyda'r Cadeirydd neu'r Uwch Swyddogion yn y lle cyntaf ac nid mewn cyfarfodydd cyhoeddus. Gofynnodd y Cynghorydd W J Chorlton i'r Cadeirydd a'r Panel Gweithredol gael gwybod yn y dyfodol am unrhyw faterion o bwys sy'n codi. Felly:

***<u>Penderfynwyd</u>: - nodi cynnwys yr adroddiad***

Daeth y cyfarfod i ben am 2.35 y prynhawn.

**Cymeradwywyd yr uchod, gan gynnwys unrhyw newidiadau a ddangosir, yn gofnod gwir a chywir o'r trafodion.**

**Arwyddwyd:** <u>T Roberts</u> **Dyddiedig:** <u>26 Hydref, 2005</u>